RHONDDA CYNON TAF

03/06/24

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Fe wnaethon ni ysgrifennu atoch chi ym mis Mai 2024 i ofyn i deuluoedd a fyddai â diddordeb mewn gwneud cais am docyn mynediad am ddim a thaleb bwyd ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf (3–10 Awst 2024) i wneud cais erbyn dydd Gwener 24 Mai. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y byddai cyllid ychwanegol o £350,000 ar gael i gefnogi teuluoedd RhCT i fynychu'r ŵyl.

Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi bod **4,500 o bobl eisoes wedi gwneud cais** am eu tocyn a'u taleb bwyd a bod **rhai tocynnau a thalebau bwyd ar gael o hyd.**

Os dydych chi ddim wedi gwneud cais eto, dyma'ch annog i lenwi'r ffurflen ar-lein syml isod yn cadarnhau:

- bod gyda chi o leiaf 1 plentyn (6–16 oed) sy'n mynychu un o ysgolion neu Unedau Cyfeirio Disgyblion Cyngor RhCT, yn derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), neu'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) – www.rctcbc.gov.uk/TocynTeuluEisteddfodRhCT.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu pe hoffech chi gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, e-bostiwch Eisteddfod2024@rctcbc.gov.uk. **Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru eich diddordeb yw dydd Sul 30 Mehefin 2024**.

*NODWCH: Fydd llenwi'r ffurflen ddim yn gwarantu y byddwch chi'n derbyn tocyn mynediad a thaleb bwyd am ddim. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn clywed gan yr Eisteddfod cyn diwedd mis Gorffennaf.*

Yn gywir,

Gaynor Davies

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

**Louise Davies**
**Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned**

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
3-10 Awst 2024